Electricity Transmission

# Taflen Ffeithiau am Arolygon Ymwthiol

Fersiwn 1




**Mae'r daflen hon yn cynnwys manylion arolygon ymwthiol mwyaf cyffredin National Grid Electricity Transmission (NGET) wrth adeiladu asedau trydan newydd.**

**Mae'r taliadau digolledu ymlaen llaw am yr arolygon hyn yn cael eu nodi yn y *Strategaeth Hawliau Tir a Rhestr Taliadau ar gyfer Asedau.***

## Tyllau turio

Fel rheol bydd tyllau turio yn cael eu creu i gynnal profion yn y fan a'r lle ac i gasglu samplau o'r ddaear (pridd a chraig) i'w profi mewn labordy.

Fel rheol bydd y gwaith yn cymryd **2 - 4 diwrnod** ac mae disgwyl i bob twll turio fod rhwng **10m a 50m** o ddyfnder gyda diamedr o ryw **150 - 300mm**. Gellir tyllu twll treialu (gyda chloddwyr tyllau pyst fel arfer) hyd at **1.2m** i chwilio am gyfleustodau, cyn tyllu'r twll turio. Fel rheol bydd y prif waith tyllu yn cael ei wneud gan rig taro ar geblau neu rig drilio cylchdro a fydd yn cael ei gludo i'r safle ar dryc gwastad neu ei dynnu tu ôl i gerbyd 4x4. Efallai bydd hefyd angen faniau cymorth i gludo rhodenni, offer ychwanegol (gan gynnwys tancer dŵr y gellir ei dynnu tu ôl i gerbyd).



## Ffynhonnau monitro dŵr daear a nwy

Ar ôl cwblhau'r tyllau turio, mae modd gosod offer monitro dŵr daear yn/uwchben y twll turio a'i adael yn y fan a'r lle. Pwrpas hyn yw mesur math ac ansawdd y dŵr, y nwy a'r anwedd dros gyfnod. Fel arfer mae'r offer yn bibell sy'n cael ei rhoi yn y twll turio a ffurfwaith pren i'w chadw'n ddiogel, tua **400mm o led a 1.5 o uchder**. Bydd angen dychwelyd i'r tyllau turio hyn i gofnodi'r mesuriadau.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen fonitro, bydd y ffurfwaith ac unrhyw offer uwchben y ddaear yn cael eu tynnu hyd at **1.2m** o dan lefel y ddaear a bydd y twll yn cael ei lenwi â growt bentonit (neu debyg) a'i drwsio.



nationalgrid

National Grid plc. National Grid House, War wick Technolog y Park, Ga
llows Hill, Warwick. CV34 6DA Y Deyrnas Unedig
Rhifau cofrestru yng Nghymru a Lloegr 403 1152

## Tyllau treialu / twll ymdreiddio

Mae angen tyllau treialu er mwyn deall amodau'r tir bas yn well ac fel arfer maen nhw'n ffosydd sydd oddeutu **1.2m o led, 1 - 3m o hyd ac 1 - 3m o ddyfnder,** defnyddir cloddiwr i'w tyllu. Mewn amgylchiadau penodol iawn er enghraifft os bydd problemau mynediad neu bryderon diogelwch, mae modd cloddio'r tyllau hyn â llaw. Mae'r tyllau'n aml yn cael eu llenwi'n ôl ar yr un diwrnod, er bod angen gadael rhai ar agor am gyfnod i gynnal asesiad manwl.



## Tyllau turio samplau ffenestri

Mae'r tyllau turio hyn yn cael eu defnyddio i ddadansoddi pridd a thywod yn fanwl. Bydd twll treialu yn cael ei greu (gyda chloddwyr tyllau pyst fel arfer) hyd at oddeutu **1.2m** i chwilio am gyfleustodau, cyn gwneud gwaith gyda rig drilio daeargi ar drac (neu gyfarpar tebyg).

Mae hyn yn golygu gwthio tiwb dur gyda diamedr oddeutu **35 - 80mm** (drwy ddyddodion meddal fel arfer) lawr oddeutu **6m** neu nes cyrraedd tir caled. Bydd fan 4x4 yn cludo'r rig, wedyn bydd yn symud ei hun i'r safle gyda chyn lleied â phosibl o darfu. Fel arfer mae twll turio yn cymryd **hanner diwrnod**, ac ar ôl gorffen bydd y twll turio yn cael ei lenwi'n ôl gyda growt bentonit (neu debyg).

## Profion treiddio côn (CPT's)

Yn debyg i'r tyllau turio samplau ffenestri, ond i brofi priodweddau'r pridd gan fwyaf, fel capasiti cynnal llwythi. Mae'r rhain yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio rig CPT ar draciau.

Mae'r prawf yn golygu gwthio offeryn côn gyda diamedr o **30 - 40mm,** sy'n sownd i linyn o rodenni, i'r tir ar gyfradd wedi'i rheoli, hyd at ddyfnder o 5-50m, ac yna'i dynnu. Disgwylir gallu gwneud hyn mewn diwrnod.



## Gwybodaeth arall

Mae'n bosibl y bydd methodolegau neu arolygon eraill yn cael eu cynnal, a bydd tywydd penodol, amodau'r tir neu ffactorau eraill yn gallu dylanwadu ar yr amserlenni a'r dulliau a ddefnyddir. Fodd bynnag, mae'r daflen hon yn sôn am yr arolygon a'r methodolegau arferol sy'n cael eu defnyddio.

Er mwyn sicrhau diogelwch a chynllunio effeithiol, rydym yn gofyn yn garedig i'r tirfeddianwyr/meddianwyr rannu'r holl gofnodion a/neu gynlluniau sy'n ymwneud ag unrhyw gyfleustodau yn y tir, systemau draenio tir neu systemau dyfrhau yn yr ardaloedd dan sylw.

Bydd unrhyw ddifrod neu golledion yn cael eu hystyried yn unol â'r *Strategaeth Hawliau Tir a Rhestr Taliadau ar gyfer Asedau*.